

DANGOSFWRDD ORGANIG

Hydref 2020 – Medi 2021 I



% y gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector Organig:

MAE **23%** O WEITHGAREDD ORGANIG

632 O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO YN DOD O'R SECTOR ORGANIG.



Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth:

RHEOLI A PHORITIR AR FFERMYDD YR UCHELDIR: SUT MAE GWNEUD HYNNYN FWY CYNALIADWY YN AMGYLCHEDDOL

YMWRTHEDD GWRTHFICROBAIDD (AMR): A ALL TECHNOLEGAU MANWL GWIR HELPŪ?

DOM, CYFFURIAU A CHLEFYD: Y CYSWLLT RHWNG CHWILOD Y DOM A FFERMIO

RHEOLI CHWYN Â THECHNEG ELECTROFFISEGOL A HEB GEMEGAU: CERRYNT I GWTOGI AR GEMEGAU?

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 36 Digwyddiad

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Arloesedd ac arallgyfeirio: Rhyngwyd Pethau ar ffermydd Cymru	Ffermio'r amgylchedd: ymgysylltu â ffermwyr	Grantiau bach Glastir – Tirwedd a pheillwyr
---	---	---

*Mae themâu'r Digwyddiad Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn rhai traws-sector sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector.

Y Rhwydwaith Arddangos

Gate Farm: Investigating min-til methods to increase sward diversity in organic grazing leys

Mae Gate Farm yn fferm laeth organig 300 erw ger Aber-miwl, y Drenewydd. Mae ganddynt 170 o fuchod a stoc i ddod i'r fuches ar system lloea trwy'r flwyddyn. Mae'r caeau pori a silwair eisoes yn cynnwys gwyndonnydd llysieuol ac mae Glenn Lloyd sy'n ffermio 'Gate farm' yn awyddus i ddefnyddio dulliau cynaliadaw y drin y tir wrth ailhau.

Mae'r prosiect yn cymharu gwahanol ddulliau hau: hau mewn slotiau, hau ag og/ar wasgar gan ddefnyddio roliwr, a hau uniongyrchol wrth hau gwndwn presennol â chymysgedd o hadau llysieuol. Cafodd hyn ei wneud ar 29 Gorffennaf 2021 ac erbyn 23 Awst, roedd meillion, ysgellog a rhygwelld lluosflwydd ifanc yn y gwndwn. At hyn, cafodd hadau rēp Redstart/cēl hybrid eu hau yn uniongyrchol ar hen dir pori.



Ffigwr 1.



Ffigwr 2.



Ffigwr 3. Cracio llorweddol oherwydd cywasgu.

Un o'r pryderon yw cywasgiad yn y caeau ac mae hyn i'w weld yn y cracio llorweddol yn ffigwr 3. Bydd yn cael ei adfer drwy ddefnyddio awyrydd a thywarchwr.

Nod cyffredinol y prosiect yw gwella cynhyrchiant y glaswelltir drwy wella adeiledd y pridd, a bydd twf y glaswelltir yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan ddefnyddio mesurydd plât.

Gardd Fasnachol Glebelands: Gwerthuso buddion hof olwynion Terrateck â Bio-ddisgiau i reoli chwyn mewn llyisiau.

Mae Gardd Fasnachol Glebelands yn fenter organig 10 erw ger Aberteifi, ac mae'n cyflenwi llyisiau ar gyfer siop fferm ar y safle, ac ar gyfer bwytai a siopau lleol a busnesau eraill. Mae'r cynydu sy'n cael eu tyfu yn cynnwys llyisiau gwyrdd y gwanwyn, pak choi, sbigoglys, brocoli, dail salad, ffa, cennin, blodfresych, ffenigl, courgettes, letys, gwrdiau, ciwcymbrau a pherlyisiau.

Mae rheoli chwyn yn her ddiddiwedd i fusnesau tyfu llyisiau bach a chanolig, ac yn aml iawn, bydd hynny'n dibynnu ar dechnegau hofio â llaw sy'n gofyn am gryn dipyn o amser a llafur. Ar hyn o bryd, mae'r busnes yn defnyddio dwy hof olwynion Glaser sy'n cael eu defnyddio ar y cyd â hofio â llaw, ond byddai'n elwa o archwilio sut i leihau hofio â llaw neu ddiddymu hynny'n llwyr.

Bydd y prosiect hwn yn gwerthuso buddio hof olwynion Terrateck sy'n cael ei chynhyrchu yn Ffrainc ac sydd â Bio-ddisgiau wedi'u gosod arni; mae'n ymddangos fod y teclyn hwn yn mynd i'r afael â nifer o broblemau arwyddocaol ar gyfer tyfwyr llai:

- Heriau trin yn effeithiol o amgylch cynydu wedi'u hau/priddo ger planhigion bychan wedi'u trawsblannu
- Problemau defnyddio offer ar dractor yn achos tir sydd ar lethr neu'n anwastad
- Y prinder offer garddwriaethol ar gyfer tyfwyr bychan a chanolig (a phrinder rhai wedi'u cynhyrchu yn y DU)
- Cymhariaeth â'r hof olwynion Glaser lai adnabyddus (o'r Swistir) a modelau hyn tebyg sy'n dal i gael eu defnyddio'n helaeth.



Ffigwr 4. Yr hof Terrateck yn cynnwys Bio-Ddisgiau

Bydd yr hof olwynion yn cael ei threialu'n benodol gyda chennin wedi'u trawsblannu yn Glebelands. Fel arfer, caiff 10,000 o blanhigion eu plannu, a dilynir hynny gan hofio â llaw a hofio gan ddefnyddio hof olwynion Glaser â thrin tir â pheiriant â dannedd sbrings, a gwneir hynny oll sawl gwaith. Gallai defnyddio hof olwynion Terrateck arwain at leihad sylweddol yn y gwaith hofio â llaw, a gwneir cymariaethau amser a llafur, ac arsylwir effeithlonrwydd y gwaith o reoli chwyn, rhwng y ddwy system.

Yn ychwanegol, bydd sicrhau cnwd glanach yn gynt yn golygu y gellir hau rhygwelld dan y cnwd yn gynt. Mae hyn yn ddull pwysig o amddiffyn y pridd ac mae angen ei amseru'n fanwl gywir i leihau cystadleuaeth â'r cennin ifanc, ond dylid ceisio anelu i sicrhau twf digonol i amddiffyn pridd rhag tywydd y gaeaf, yn enwedig erydiad pridd sy'n gysylltiedig ag achosion o lawiad dwys.

Cymorthfeydd



CYNHALIWDYD **64** CYMHORTHFA



Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Cyfreithiol	Marchnata ac arallgyfeirio
Cynllunio	Busnes

Cafodd un busnes gyngor drwy gymhorthfa fusnes gan ei fod yn y broses o drosglwyddo i system organig. Roedd eisiau i rywun edrych ar sefyllfa ariannol y busnes wrth droi i fod yn fusnes organig.

Agrigôp

MAE **48** O'R CYFARFODYDD A GYNHALIWDYD WEDI BOD YN TRAFOD Y SECTOR ORGANIG

Dyma rai enghreifftiau o themâu'r grŵp:

Rheoli pridd	Garddwriaeth	Organig a thu hwnt
--------------	--------------	--------------------



Archwilio dichonolrwydd ymarferol ac ariannol tyfu asbaragws yn organig ar raddfa fechan yn ne Cymru.

Mae gan asbaragws botensial da yng Nghymru gan ei fod yn gnwd uchel ei werth sy'n denu lefelau gwerthiant da yn uniongyrchol o'r fferm. Fel cynnyrch organig o safon, mae gwerth y cnwd yn uchel, hyd at £18 y kg. Mae'r cnwd yn elwa ar gael ei gadw'n ffres ac ar farchnadoedd cyflenwi byr na all yr archfarchnadoedd gystadlu â nhw fel arfer. Bu'r prosiect hwn yn ystyried y costau sefydlu, agronomeg, llafur a chynaeafu ar ddwy fferm organig fach.

- Roedd cyfanswm y costau sefydlu yn uchel, sef £15,800 ar gyfer y 2 hectar a blannwyd.
- Rheoli chwyn oedd un o'r heriau mwyaf ac roedd hyn yn gofyn am lawer o lafur ar y ffermydd organig.
- Effeithiodd y tywydd ar y cynnyrch ac roedd llai o gnwd yn 2021 oherwydd y gwanwyn hwyr.
- Ar un o'r ffermydd yr elw yn 2021 oedd £10.7k/ha o'i gymharu â £21.6k/ha yn 2020.
- Ar y cyfan, mae gwerth y cynnyrch hwn yn ei wneud yn fuddsoddiad gwerth chweil cyn belled â bod digon o lafur ar gael yn ystod y cyfnod cynaeafu.

Grwpiau Trafod

CYNHALIWIYD 45

CYFARFOD GRŴP TRAFOD YN YMWNEUD Â'R SECTOR ORGANIG gyda **764** O FYNICHWYR

Gwnaeth Grŵp Trafod Llaeth Organig o Ogledd-ddwyrain Cymru wahodd Tom Greenham MRCVS o Advanced Milking i siarad â'r grŵp ynglŷn â sicrhau Ansawdd Gorau Posibl Llaeth Organig.

Dechreuodd Tom ei anerchiad gan bwysleisio bod sicrhau iechyd gorau posibl anifeiliaid yn seiliedig ar reoli strategaethau atal a hwsmonaeth dda, rhywbeth y mae'r mwyafrif o systemau organig yn ei gadw wrth wraidd eu strategaethau rheoli buchesi. Y prif nod ddylai fod i sicrhau iechyd naturiol gorau posibl yr anifail a lleihau pwysau a straen clefydau.

Ffocws allweddol y cyfarfod oedd rheoli mastitis o fewn y fuches, a'i effaith ar ansawdd llaeth. Roedd Tom wedi amlinellu pwysigrwydd cofnodi achosion, gan nodi rhifau adnabod unigol pob buwch a'r dyddiad heintio. Yna, gellid defnyddio'r data hwn i adnabod y meysydd canlynol lle y gwelir risg:

- Amgylchedd vs trosglwyddo clefydau
- Siediau
- Cyfnod sych vs llaethiad
- Natur dymhorol
- Oedran y fuwch – heffrod/gwartheg/gwartheg hŷn

Mae pob fferm yn wahanol, a bydd cofnodi data yn lleoli ffynonellau heintiau yn fanwl – yna gellir creu cynllun gweithredu ataliol. Cydbwysu'r her yn erbyn yr amddiffyn yw'r nod, gan gadw'r her yn isel a'r strategaethau amddiffynnol yn uchel; bydd hyn yn mwyhau'r gallu i oresgyn achosion o heintiau pan fyddant yn dod i'r amlwg ar y fferm. Bydd cyflawni hyn yn lleihau'r angen am ddefnyddio gwrthfotigau wrth barhau i reoli'r fuches.

Trafodwyd y mathau gwahanol o facteria heintiol, a phan fydd angen defnyddio triniaethau gwrthficrobaidd:

E. coli – Mastitis gradd isel yn dueddol o ymddangos, cyfrif celloedd somatig isel i ganolig mewn tanciau llaeth. Mae gan E. coli gyfradd hunan-iacháu uchel a dim ond triniaeth gefnogol y bydd ei hangen.

Streptococcus Uberis – Nifer canolig o achosion (neu batrymau o frigiad heintus), cyfraddau iacháu is nag E. coli. Byddant yn gymedrol o ran difrifoldeb ond bydd ganddynt gyfrif celloedd somatig canolig i uchel mewn tanciau llaeth. Fel arfer, bydd angen defnyddio triniaethau gwrthfotig i drin achosion gwael, ond bydd y gyfradd iacháu yn isel iawn yn ystod llaethiad.

Staphylococcus Aureus – Nifer isel i ganolig o achosion o fastitis, a fydd yn amrywio mewn difrifoldeb. Bydd yna gynnydd cynaledig mewn cyfrifoedd celloedd somatig. Bydd angen defnyddio gwrthfotigau i drin y brŷd hwn.

Cytunodd aelodau'r grŵp bod y pwyntiau a drafodwyd yn ffordd dda o'n hatgoffa am hwsmonaeth arbennig o'r fuches, ac roeddent yn teimlo eu bod nhw, fel ffermwyr organig, 'gam ymlaen' nag eraill o ran ystyried ffactorau a risgiau amgylcheddol ar gyfer gweithio tuag at atal heintiad o fastitis yn y lle cyntaf.

Mentora

Mae gennym ni **10 Mentor Organig** ar y fframwaith



Cliciwch yma i weld proffil Alan



Cliciwch yma i weld proffil Dafydd



Cliciwch yma i weld proffil David



Cliciwch yma i weld proffil Haydn



Cliciwch yma i weld proffil Helen



Cliciwch yma i weld proffil Jim



Cliciwch yma i weld proffil Keri



Cliciwch yma i weld proffil Phillip



Cliciwch yma i weld proffil Richard



Cliciwch yma i weld proffil Romeo

Pynciau a drafodwyd:

Rheoli tir organig yn effeithlon i'w ddefnyddio mewn bocsys cig.

Mentrau llaeth organig

Cadw gwenyn yn organig

Hyfforddiant

Cafwyd **5** cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2020 a Medi 2021 (heb gynnwys ailgeisiadau am Covid) gyda **866** achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod.

O'r rhain, gallai'r cyrsiau canlynol gael eu hystyried o fewn y sector Organig:

Ansawdd Pridd

Pori Cadwraethol

Cynnal a Gwella Iechyd Pridd

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector Organig yn cynnwys:

GARDDWRIAETH ORGANIG

IECHYD PRIDD

NEWID HINSAWDD A RHEOLI TIR

Am ragor o fanylion ynglŷn ag e-ddysgu, ewch i'r [wefan](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio).

